

**CRONFA BENSIWN
CAERDYDD A BRO MORGANNWG**

DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI

MAWRTH 2017

Cyflwyniad

Cyngor Dinas Caerdydd ('y Cyngor') yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ('y Gronfa')

Yn ôl Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ("y Rheoliadau Buddsoddi"), mae angen i awdurdodau gweinyddu lunio a chyhoeddi strategaeth buddsoddi.

Mae'n rhaid i'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB) sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 7 y Rheoliadau gynnwys:

- (a) gofyniad i fuddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau;
- (b) asesiad yr awdurdod o addasrwydd buddsoddiadau neilltuol a mathau o fuddsoddiadau;
- (c) ymagwedd yr awdurdod at risg, gan gynnwys y modd y caiff risgiau eu mesur a'u rheoli;
- (d) ymagwedd yr awdurdod at gyfuno buddsoddiadau, gan gynnwys defnyddio cyfryngau buddsoddi torfol a chydwasanaethau;
- (e) polisi'r awdurdod ynghylch sut y rhoddir ystyriaeth i agweddau cymdeithasol, amgylcheddol neu lywodraethu corfforaethol wrth ddewis, peidio dewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau; ac
- (f) polisi'r awdurdod ynghylch arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sydd yn gysylltiedig â buddsoddiadau.

Mae'n rhaid i'r DSB hefyd bennu'r ganran uchaf o gyfanswm gwerth yr holl arian o'r gronfa a fuddsoddir mewn buddsoddiadau neilltuol neu ddosbarthau buddsoddi.

Mae'n rhaid i'r DSB gydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddir yn achlysurol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sef y canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016 ar hyn o bryd.

Mae Cylch Gorchwyl Pensiynau Cyngor Dinas Caerdydd ('y Pwyllgor') yn cynnwys pennu strategaeth buddsoddi'r awdurdod. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strategaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, ac fe'i paratowyd mewn ymgynghoriad â Phanel Cyngori ar Fuddsoddi y Gronfa ('y Panel')

A Buddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau

Dylai portffolio o asedau ac ynddo amrywiaeth briodol gynnwys ystod o ddosbarthau ased er mwyn helpu i leihau'r risg gyffredinol i'r portffolio. Os nad yw dosbarth buddsoddi unigol yn perfformio'n dda, dylai buddsoddiadau eraill sydd yn perfformio'n well ar y pryd wrthbwysu hynny. Mae portffolio sy'n cynnwys amrywiaeth hefyd yn helpu i leihau anwadalrwydd.

Mae'r Pwyllgor yn anelu i fodloni'r gofyniad am bortffolio amrywiol dry adolygu ei Ddyraniad Asedau Strategol ar sail flynyddol. Cymeradwyir y Dyraniad Asedau gan y Pwyllgor yn unol â chyngor y Panel. Mae'r Panel yn ystyried amrywiaeth eang o gyfleoedd i fuddsoddi cyn cyflwyno ei argymhellion.

Dyma'r dosbarthau asedau cyfredol sydd wedi'u cynnwys yn y dyraniad:

- Llog Sefydlog Confensiynol a Chysylltiedig â'r Mynegai Prisiau manwerthu - Y DU a Thramor
- Ecwitiâu - Y DU a Thramor (UDA, Ewrop, Y Dwyrain Pell, Egin-farchnadoedd)
- Ecwiti Preifat - (drwy gronfeydd cyfun)
- Cronfeydd eiddo - Y DU ac yn Fyd-eang

Caniateir y gweithgareddau canlynol hefyd yn gysylltiedig â buddsoddi:

- Deilliadau ac offerynnau ariannol eraill o fewn terfynau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, er mwyn rheoli portffolios mewn modd effeithlon neu i ddibenion penodol fel cynlluniau ymddiogelu arian tramor.
- Tanysgrifennu, ar yr amod bod y stoc sylfaenol yn addas ar sail buddsoddi ac yn cydymffurfio â meini prawf buddsoddi presennol
- Benthycia stoc

Dyma grynodedb o'r targedau a'r terfynau amrywiant ar gyfer Dyrannu Asedau a gytunwyd ar gyfer 2017-18.

Dosbarth asedau	Dyraniad Targed %	Terfynau Amrywiant %
Ecwitiâu'r DU	34.0	+/- 5
Ecwitiâu Tramor	35.0	+/- 5
Bondiau ac Arian Parod	18.5	+/- 5
Eiddo	7.5	+/- 5
Ecwiti preifat	5.0	+/- 2.5
Cyfanswm	100.0	

Terfynau Buddsoddi

Gosodai'r Rheoliadau Buddsoddi a oedd mewn grym rhwng 2009 a 2016 derfynau statudol ar wahanol fathau o fuddsoddiadau. Cafwyd gwared â'r terfynau hyn yn sgil Rheoliadau Buddsoddi 2016, ond bydd y Gronfa yn parhau i weithredu oddi

mewn i'r terfynau ngholofn 2 Atodlen 1 o Reoliadau 2009 mewn perthynas ag unrhyw asedau nad ydynt eto wedi'u trosglwyddo i Bŵl Buddsoddi Cymru.

B Addasrwydd buddsoddiadau neilltuol a mathau o fuddsoddiadau

Bwriedir i bolisi buddsoddi'r Gronfa sicrhau bod yr holl daliadau statudol a wneir o'r Gronfa yn creu cyn lleied ag sy'n bosibl o gostau i gyrff cyflogi.

Prif amcan buddsoddi yw sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o enillion ar fuddsoddiad, a lleihau hyd yr eithaf unrhyw gyfraniadau yn y dyfodol gan gyflogwyr dros y tymor hir, o fewn lefel dderbyniol o risg. Diffinnir enillion ar fuddsoddiad fel cyfraddau ennill cyffredinol (incwm a thwf cyfalaf wedi'u cyfuno) Cydnabyddir hefyd y bwriedir i fuddsoddiadau gynnal ac ychwanegu at werth y Gronfa.

Y gofyniad statudol yw symud tuag at ariannu 100% o atebolrwydd cronedig y Gronfa dros gyfnod o amser. Bydd y cyfnod hwn, ynghyd â'r lefel ariannu yn cael eu cyfrifo bob tair blynedd a'u cytuno â'r Actiwari yn dilyn adolygiad sy'n asesu pa mor ddigonol yw asedau'r Gronfa i fodloni ei hatebolrwydd. Mae'r Panel yn ystyried safbwynt yr actiwari a'r lefel ariannu wrth lunio ei gyngor.

Mae'r Gronfa yn pennu ei meincnod ei hun i sicrhau bod polisi dyrannu asedau'r Gronfa yn adlewyrchu ei nodweddion ei hun, yn hytrach na nodweddion cyfartalog grŵp o gymheiriaid. Pennir y meincnod yn unol ag Amcan Cronfa hirdymor i sicrhau ymraniad o 75/25 Ecwitiâu/Bondiau wrth ddyrannu asedau. Pennwyd yr ymraniad yn 2004, yn dilyn astudiaeth asedau/atebolrwydd, gyda'r nod o leihau hyd yr eithaf, neu sefydlogi o leiaf, y cyfraniadau gan gyflogwyr yn y dyfodol, ac osgoi amrywiadau mawr. Bydd y Panel yn cynnal adolygiad rheolaidd o ddyraniad cyffredinol yr asedau, ac yn ystyried cyfleoedd priodol am astudiaeth bellach o asedau-atebolrwydd.

Enillion Disgwyliedig ar Fuddsoddiadau

Y dull a ddefnyddir ar gyfer buddsoddi yw penodi rheolwyr cronfa arbenigol â thargedau clir a'r lefel uchaf o atebolrwydd ar gyfer perfformiad. Dyma'r targedau cyffredol ar gyfer pob mandad:

Portffolio	Mynegai Meincnodi'r Portffolio	Targed y Portffolio
Arian Parod	7 Diwrnod Awdurdod Lleol	Mynegai
Bondiau Byd-eang	20% Giltiau FTSE y DU 30% Bondiau Corfforaethol £ iBoxx 20% Bond Llywodraeth Byd Citigroup (£ ymddiogelu)	Mynegai Cyfansawdd +1% y. f. dros gyfnodau treigl o 3 bl.

	20% £ LIBOR 3 mis 10% Bondiau Egin-farchnadoedd JPM (£ ymddiogelu)	
Ecwitiau'r DU (Gweithredol)	FTSE All-Share	Mynegai +2%, dros gyfnodau treigl o 3 blynedd
Ecwitiau'r DU (Goddefol)	FTSE All-Share	Mynegai +/- 0.25-0.3% y.f.
Ecwitiau UDA (Goddefol)	FTSE USA	Mynegai +/- 0.25 y.f.
Ecwitiau Ewrop (Gweithredol)	FTSE Ewrop ac eithrio'r DU	Mynegai +2% dros gyfnod treigl o 3 blynedd
Ecwitiau Japan (Gweithredol)	TOPIX	Mynegai +3% dros gyfnodau treigl o 3 bl.
Ecwitiau Asia-Cefnfor Tawel (Gweithredol)	FT AW Asia ex-Japan	Mynegai +3% dros gyfnodau treigl o 3 bl.
Ecwitiau Egin-farchnadoedd (Gweithredol)	Egin-farchnadoedd MSCI	Mynegai +3% y.f. dros gyfnodau treigl o 4 bl.
Eiddo yn y DU	Amrywiol (mynegeion PUT cytbwys)	Amrywiol
Eiddo Byd-eang	Amh.	Enillion Absoliwt o 10% y.f.
Ecwiti preifat	Amh.	Heb osod targed *

* Er na osodwyd targed ffurfiol, y sail resymegol ar gyfer ecwiti preifat yw y dylai berfformio'n well nag ecwitiau a ddyfynnwyd dros gyfnod cyfatebol.

C Risg

Ceir rhestr fanwl o'r prif risgiau i'r Gronfa yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi. Caiff risgiau sy'n deillio o fuddsoddiadau eu monitro gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi. Mae'r Gronfa'n cydnabod y risgiau sy'n deillio o ddal cyfran uwch o ecwitiau ac unrhyw asedau sydd yn ceisio sicrhau enillion nag a geid o dan strategaeth a ysgogir gan atebolrwydd, ond mae'n ystyried bod y risgiau hyn wedi'u lliniaru yn sgil cyfamed cryf prif gyflogwyr y Gronfa a phroffil aeddfedrwydd sefydlog ei haelodaeth.

Risg Buddsoddi yw'r risg na fydd rheolwyr y Gronfa yn llwyddo i sicrhau'r gyfradd o enillion ar fuddsoddiad a dybiwyd wrth bennu eu mandad. Y brif ffordd o reoli risg buddsoddi yw amrywio asedau ar draws marchnadoedd a dosbarthau asedau. Bydd y gydberthynas rhwng y rhain yn amrywio dros amser, ond caiff y risg sylfaenol o amlygiad i farchnad gyfalaf benodol ei lliniaru i ryw raddau drwy ddefnyddio strategaeth amrywiol fel yr un a ddilynir gan y Gronfa.

Er bod risg arian cyfred yn rhan annatod o strategaeth amrywiol, ceir rhywfaint o ymdriniaeth â hynny drwy ddefnyddio rheolwr arbenigol i ddiogelu rhag amlygiad os yw'n ymddangos bod yr arian cyfred y mae'r gronfa wedi'i buddsoddi ynddo wedi'i brisio i raddau eithafol.

Mae'r rheolwyr cronfa arbenigol unigol yn rheoli risg o amrywio o'r meincnodau, i gyd-fynd â'r targedau a roddwyd iddynt. Dyma'r mesurau/targedau risg cyfredol ar gyfer y mandadau gweithredol arwahanol, yn seiliedig ar fethodoleg risg safon y diwydiant:

Portffolio	Gwall Orlhain
Ecwitiau gweithredol y DU	3 - 6%
Ecwitiau Japan	Targed%
Ecwitiau Asia a'r Môr Tawel	3 – 6%
Ecwitiau Egin-farchnadoedd	Targed 8%
Bondiau Byd-eang	0 - 3%

Adroddir lefelau risg cymharol ar gyfer rheolwyr gweithredol bob chwarter, ac fe'u trafodir yn flynyddol gan y Panel. Ar gyfer cyfryngau cyfun (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol), mae'r rheolwr yn adrodd risg y cyfrwng cyfun yn ei gyfanrwydd. Mae'r Panel yn cydnabod y gall gwallau olrhain eu hunain fod yn ddull anwadal o fesur y risgiau y mae rheolwr yn eu cymryd, ac y gallai ystadegau diweddarach fod yn wahanol iawn i amcangyfrifon blaenorol. Gan hynny, mae angen trin y dull hwn yn ofalus, o safbwynt ei werth rhagfynegol. Defnyddir gwall olrhain felly fel canllaw wrth ystyried perfformiad cyffredinol rheolwyr.

Risg Hylifedd yw'r risg na all y Gronfa fodloni ei holl atebolrwydd uniongyrchol oherwydd prinder asedau. Mae'r Gronfa yn monitro ei sefyllfa hylifedd yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'n gwerthu asedau hirdymor er mwyn talu buddion. Mae o leiaf 80% o asedau'r Gronfa yn hylifol iawn. Mae'n ofynnol i reolwyr Bondiau Ecwiti a Byd-eang ddal sicrhau nad ydynt ond yn dal asedau y gellir eu gwireddu'n rhwydd ar adeg eu prynu. Byddai angen cymeradwyaeth benodol ar gyfer unrhyw fuddsoddiad o bwys gyda chronfa fewnol neu gyfun, nad yw'n rhwydd ei masnachu.

Nid oes modd gwireddu ecwiti preifat yn rhwydd fel arfer. Disgwylir enillion uwch ar fuddsoddiad o gymharu ag ecwitiau confensiynol, gan adlewyrchu'r risg fwy sydd yn gysylltiedig â'r ffaith hwn.

Bydd risgiau gweithredol yn codi drwy weithredu strategaeth buddsoddi'r Gronfa. Nodir y risgiau hyn isod:

- Risg pontio - gallai'r Gronfa fynd i gostau annisgwyl yn gysylltiedig â throsglwyddo asedau rhwng rheolwyr ac/neu ddsbarthau ased. Wrth gyflawni trafodion sylweddol, bydd y gronfa'n derbyn cyngor proffesiynol ac yn ystyried defnyddio rheolwyr pontio arbenigol i liniaru'r risg hon os yw gwneud hynny'n gost-effeithiol.
- Risg gwarchodaeth - mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau ei bod yn cadw'r hawliau economaidd dros holl asedau'r Gronfa, pan fônt dan warchodaeth neu'n cael eu masnachu. Gwna hyn drwy ddefnyddio gwarchodwr byd-eang (Northern Trust) i warchod asedau, drwy ddefnyddio trefniadau contractio ffurfiol ar gyfer pob buddsoddiad a thrwy gynnal cofnodion cyfrifyddu buddsoddi annibynnol.
- Risg diffyg-daliad credyd - gallai gwrthbarti sy'n gysylltiedig ag un o fuddsoddiadau'r Gronfa fetu â chyflawni ei rwymedigaethau. O dan eu contractau rheoli asedau, mae'n ofynnol i reolwyr buddsoddi'r Gronfa reoli risg wrthbarti ar ran y Gronfa.

- Risg benthycia stoc - y posibilrwydd o ddiffyg-daliad ac o golli'r hawliau economaidd dros asedau'r Gronfa. Rheolir benthyciadau stoc gan warchodwr y Gronfa, ac mae rheolaethau gwrthbarti a chyfochrog priodol ar waith.

D Cyfuno Buddsoddiadau

Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn un o wyth cronfa sydd yn cymryd rhan ym Mhŵl Buddsoddi Cymru ('y Pŵl'). Cafodd y strwythur arfaethedig a'r sail ar gyfer gweithredu'r Pŵl eu nodi yng nghyflwyniad Gorffennaf 2016 i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cymeradwywyd y cynigion gan y Gweinidog Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2016.

Asedau i'w buddsoddi yn y Pŵl

Bwriad y Cyngor yw buddsoddi asedau'r Gronfa drwy'r Pŵl, pan fydd datrysiadau buddsoddi addas yn dod i'r amlwg drwy'r Pŵl. Nodwyd amserlen ddangosol ar gyfer buddsoddi drwy'r Pŵl yng nghyflwyniad Gorffennaf 2016. Dyma fydd y meini prawf allweddol ar gyfer asesu datrysiadau'r Pŵl:

- Bod y Pŵl yn galluogi mynediad at ddatrysiad priodol sy'n bodloni amcanion a meini prawf meincnodi a bennir gan y Gronfa
- Bod y datrysiad a gynigir gan y Pŵl yn cynnig budd ariannol clir i'r Gronfa

Ar adeg paratoi'r datganiad hwn, mae'r Gronfa eisoes wedi buddsoddi'r asedau canlynol drwy gynllun caffael cydweithredol a gyflawnwyd yn 2016 â'r saith cronfa arall yng Nghymru:

Dosbarth asedau	Rheolwr	% o asedau'r Gronfa (targed dyrannu)	Meincnod	Amcan Perfformiad
Ecwitiâu Goddefol y DU	BlackRock	19.0	FTSE All-Share	Meincnod
Ecwitiâu Goddefol UDA	BlackRock	10.0	FTSE All-World USA	Meincnod

Rhagwelir na fydd buddsoddiadau ecwiti preifat presennol y Gronfa yn cael eu trosglwyddo i'r Pŵl, ond yn cael eu disodli gan fuddsoddiadau cyfun neu gydweithredol addas wrth iddynt aeddfedu dros y 10-15 mlynedd nesaf. Bwriedir trosglwyddo'r holl ddsbarthau ased eraill i'r Pŵl cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Strwythur a threfniadau llywodraethu Pŵl Buddsoddi Cymru

Bydd y Pŵl yn penodi Gweithredwr trydydd parti wedi'i awdurdodi gan yr FCA i ddarparu ystod o is-gronfeydd buddsoddi lle bydd asedau'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan yn cael eu buddsoddi.

Bydd Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI) yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r Gweithredwr. Bydd y CBLI yn cynnwys un aelod etholedig o bob awdurdod gweinyddu cyfansoddol, ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion. Bydd un o'r wyth cronfa yn gweithredu fel Awdurdod Cynnal i roi cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol i'r Pŵl.

Bydd Cylch Gorchwyl y CBLI a rolau'r Gweithgor a'r Awdurdod Cynnal wedi'u nodi mewn Cytundeb Rhyng-awdurdodol Cyfreithiol-rwym i'w gymeradwyo a'i lofnodi gan yr wyth awdurdod sy'n gweinyddu. Dyma fydd cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Llywodraethu:

- Monitro perfformiad Gweithredwr y Pŵl
- Penderfynu pa is-gronfeydd dosbarth asedau fydd yn cael eu darparu gan y Gweithredwr i weithredu strategaethau buddsoddi unigol yr wyth cronfa.
- Darparu atebolrwydd i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan o ran y rheolaeth ar y Pŵl
- Bod yn gyfrifol am adrodd wrth Lywodraeth y DU ac wrth randdeiliaid eraill am y Pŵl
- Goruchwylio'r Gweithgor Swyddogion

Bydd yr wyth awdurdod gweinyddu yn parhau i gadw rheolaeth dros bennu eu strategaeth buddsoddi a'u dyraniadau ased.

E Sut yr ystyrir ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu lywodraethu corfforaethol

Mae'r Gronfa yn ceisio canfod cyfleoedd buddsoddi nad ydynt yn gwrthdaro â'i dyletswyddau ymddiriedol i sicrhau enillion optimwm, gan ddymuno ystyried pryderon a materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol ar yr un pryd. Mae'r Gronfa hefyd yn cefnogi datblygiad technoleg glân yn uniongyrchol drwy ei phortffolio ecwiti preifat.

Darperir adroddiadau blynyddol ar bolisiau a gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y rheolwyr, a bydd cyflwyniadau blynyddol gan reolwyr ecwiti yn cynnwys cyfeiriad at eu gweithrediadau llywodraethu corfforaethol lle bo'n briodol (ee, mandadau arwahanol). Delir holl asedau'r Gronfa gan reolwyr cronfa sydd wedi mabwysiadu Egwyddorion y CU ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol, neu God Gwarchodaeth cyfatebol y DU, a bydd tendrau ecwiti yn y dyfodol yn cyfeirio at y meini prawf hyn.

F Arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sydd yn gysylltiedig â buddsoddiadau.

Lle bo'n berthnasol, bydd IMAs yn ymgorffori egwyddorion y Pwyllgor Cyfranddalwyr Sefydliadol (ISC) ynghylch cyfrifoldebau cyfranddalwyr ac asiantau sefydliadol i sicrhau bod gan reolwyr strategaeth eglur sy'n esbonio'r amgylchiadau lle byddant yn ymyrryd mewn cwmni, y dull i'w ddefnyddio, a sut i fesur effeithiolrwydd y strategaeth.

Ar hyn o bryd, mae cronfeydd goddefol a rheolwyr gweithredol y DU oll yn defnyddio egwyddorion yr ISC, ac yn rhan o hyn maent yn ymgysylltu'n weithredol â chwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae'r rheolwyr tramor yn ymgysylltu drwy gysylltiadau arferol rhwng cwmnïau a dadansoddwyr neu drwy drafodaethau ar bryderon penodol.

O ran pleidleisio, bydd yr holl gronfeydd goddefol a gweithredol yn pleidleisio, lle bo'n ymarferol, yn unol â'r egwyddorion a ddarparwyd i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, gan adrodd yn rheolaidd ar y camau a gymerwyd. Yn achos mandadau ar wahân, fodd bynnag, cymerir gofal i sicrhau, lle bo'n berthnasol, na chaiff polisiau'r Gronfa eu diystyru, eu dileu neu eu gwano yn sgil polisi cyffredinol rheolwr. Beth bynnag fo'r achos, ceidw'r Gronfa yr hawl terfynol i ddiystyru penderfyniadau'r rheolwyr ar unrhyw bryd, ac i bleidleisio'n unol â'i dymuniadau ei hun.

Mae'r Gronfa yn aelod o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol (FfCPALI) i'w galluogi i weithredu ar y cyd â chronfeydd eraill LGPS ar faterion llywodraethu corfforaethol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.